Cynnwys:

GWASANAETH PRIODAS
MEWN GWEINYDDIAD O'R CYMUN BENDIGAID
TUDALEN 1

GWASANAETH PRIODAS
TUDALEN 13

BENDITHIO PRIODAS YN DILYN SEREMONI SIFIL
TUDALEN 25

ATODIAD O DDEUNYDD YCHWANEGOL
TUDALEN 35

DRAFFT O WASANAETH PRIODAS
MEWN GWEINYDDIAD O'R CYMUN BENDIGAID

(MAR 1) Chwefror 2010

Strwythur

Y Dod Ynghyd
Croeso
Defod Edifeirwch
Colect

Cyhoeddi'r Gair
Darlleniadau
Homili

Y Briodas
Datganiadau
Llwon
Rhoi Modrwyau (Modrwy)
Cyhoeddi
Bendithio'r Briodas*

Cofrestru'r Briodas*

Yr Ymbiliau

Y Tangnefedd

Y Diolch

Bendithio'r Briodas* (ar ôl Gweddi'r Arglwydd)

Y Cymun
Torri'r Bara
Rhoi'r Cymun

Yr Anfon Allan

Cofrestru'r Briodas*

* gellir gwneud hyn mewn man arall yn y gwasanaeth

DRAFFT O WASANAETH PRIODAS

MEWN GWEINYDDIAD O'R CYMUN BENDIGAID

[Gellir canu emyn]

Y DOD YNGHYD

Mae'r offeiriad yn cyfarch y bobl:

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.
Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
A'th gadw di yng nghariad Crist.

Neu yn nhymor y Pasg:

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Gellir defnyddio brawddeg ragarweiniol.

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddynt hwythau. *(I Ioan 4.16)*

Mae'r gynulleidfa'n eistedd.
Mae'r briodferch a'r priodfab yn parhau i sefyll gerbron yr offeiriad.

Defnyddir y canlynol neu Ragarweiniad arall o'r Atodiad.

Daethom ynghyd i dystio i briodas *E* ac *E*, i weddïo am fendith Duw arnynt, i rannu yn eu llawenydd ac i ddathlu eu cariad. Rhodd oddi wrth Dduw yw priodas. Trwyddi gall gŵr a gwraig gyd-dyfu yn eu hadnabyddiaeth o Dduw, eu cariad ato a'u gwasanaeth iddo. Fe'i rhoddir fel y gallant, a hwythau'n un â'i gilydd o galon a meddwl a chorff, gynyddu mewn cariad ac ymddiriedaeth. Y mae Duw yn uno gŵr a gwraig mewn uniad am oes sy'n sylfaen i fywyd teuluol, lle (y genir ac y megir plant ac) y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac amseroedd drwg, gael nerth, cwmnïaeth a chysur a thyfu i aeddfedrwydd mewn cariad. Y mae'n cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r gymuned.

Y mae priodas yn ffordd o fyw a sancteiddiwyd gan Dduw, ac a fendithiwyd gan bresenoldeb Iesu yn y briodas yng Nghana Galilea. Dylai pawb ei pharchu a'i hanrhydeddu. Ni ddylai neb ei chymryd arno'n ysgafn nac yn hunanol, ond yn bwyllog ac yn gyfrifol yng ngŵydd Duw Hollalluog. Y mae *E* ac *E* yn awr am gymryd y ffordd hon o fyw. Bydd y naill yn rhoi ei gydsyniad i'r llall ac yn gwneud llwon difrifol, ac fel arwydd o hyn byddant yn rhoi ac yn derbyn modrwyau (modrwy). Gweddïwn drostynt, ar i'r Ysbryd Glân eu cyfarwyddo a'u nerthu, fel y cyflawnant amcanion Duw gydol eu bywyd daearol ynghyd.

Dywed yr offeiriad wrth y gynulleidfa:
Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na all y personau hyn briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Dywed yr offeiriad wrth y ddeuddyn:
E ac *E*, yr ydych ar fin gwneud eich llwon priodas yng ngŵydd Duw, barnwr pawb, sy'n gwybod cyfrinachau ein calonnau; felly, os gŵyr y naill neu'r llall ohonoch am unrhyw reswm paham na allwch briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

GWAHODDIAD I GYFFESU

Wrth inni baratoi i glywed gair Duw ac i dystio i briodas *E* ac *E*, yr ydym yn cofio ein gwendid dynol a'n hangen am gymorth Duw ym mhopeth a wnawn.

(Distawrwydd)

Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni. Amen.

Neu:

Arglwydd Iesu, yn ein gwendid, ti yw ein nerth.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu, pan fyddwn yn baglu, yr wyt ti'n ein codi.
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu, pan fyddwn yn methu, yr wyt ti'n rhoi inni fywyd newydd.
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Yr Hollalluog Dduw, sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
a drugarhao wrthych, a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y COLECT

Mae'r offeiriad yn gwahodd y bobl i weddïo; cedwir distawrwydd; dywed y sawl sy'n gweinyddu'r cymun y colect.

Naill ai:

Dduw ein Tad, fe'n dysgaist trwy dy Fab mai cariad yw cyflawniad y Gyfraith. Caniatâ fod i'th weision *E* ac *E*, o garu ei gilydd, aros yn dy gariad di holl ddyddiau eu bywyd: trwy Iesu Grist ein Harglwydd y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob cariad a phob gogoniant dros amser a thros dragwyddoldeb. **Amen**

Neu defnyddir un o'r Dewisiadau Eraill yn yr Atodiad.

CYHOEDDI'R GAIR

Bydd un neu ddau ddarlleniad o'r Ysgrythur cyn y darlleniad o'r Efengyl. Ar ddiwedd pob un, dywed y darllenydd:

Dyma air yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Gellir canu salm neu gantigl neu emyn rhwng y darlleniadau.

YR EFENGYL

Gellir cyflwyno'r darlleniad o'r Efengyl â bonllef. Gellir defnyddio un o'r canlynol:

Halelwia, Halelwia.
yn wryw a benyw y creodd Duw hwy
a bydd y ddau yn un cnawd.
Halelwia.

Neu:

Halelwia, Halelwia.
Cariad yw Duw;
gadewch inni garu ein gilydd
fel y carodd Duw ni.
Halelwia.

Neu yn y Garawys:

Gogoniant i ti, O Grist; ti yw Gair Duw.
Yn wryw a benyw y creodd Duw hwy
a bydd y ddau yn un cnawd.
Halelwia.

Neu:

Gogoniant i ti, O Grist; ti yw Gair Duw.
Cariad yw Duw;
gadewch inni garu ein gilydd
fel y carodd Duw ni.
Halelwia.

Cyn yr Efengyl dywed y darllenydd:

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant …
Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Ar ôl yr Efengyl dywed y darllenydd:

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
Moliant i ti, O Grist.

Gall homili fer ddilyn y darlleniadau.

[Gellir canu emyn.]

Y BRIODAS

Y DATGANIADAU

Dywed y gweinidog wrth y priodfab:
E, a gymeri di *E* yn wraig i ti? A wnei di ei charu, ei chysuro, ei hanrhydeddu a gofalu amdani, a chan wrthod pawb arall, fod yn ffyddlon iddi tra byddwch eich dau byw?

Y mae yntau'n ateb:
Gwnaf.

Dywed y gweinidog wrth y briodferch:
E, a gymeri di *E* yn ŵr i ti? A wnei di ei garu, ei gysuro, ei anrhydeddu a gofalu amdano, a chan wrthod pawb arall, fod yn ffyddlon iddo tra byddwch eich dau byw?

Y mae hithau'n ateb:
Gwnaf.

Dywed y gweinidog wrth y gynulleidfa:
A wnewch chwi, deuluoedd a chyfeillion *E* ac *E*, eu cynnal a'u cefnogi yn eu priodas yn awr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod?

Dywed pawb:
Gwnawn.

Y LLWON

Cyflwyna'r gweinidog y llwon â'r geiriau hyn neu eiriau cyffelyb:
E ac *E*, yr ydych yn awr i gysylltu dwylo a gwneud eich llwon, yng ngŵydd Duw a'i bobl.

Mae'r briodferch a'r priodfab yn wynebu ei gilydd.
Cymer y priodfab law dde'r briodferch yn ei law dde, a dywed:
Yr wyf fi, *E*, yn dy gymryd di, *E*,
yn wraig i mi,
i'th gadw a'th gynnal
o'r dydd hwn ymlaen;
er gwell, er gwaeth,
er cyfoethocach, er tlotach,
yn glaf ac yn iach,
i'th garu a'th ymgeleddu,
tra byddwn ni'n dau byw;
yn ôl cyfraith sanctaidd Duw.
Gwnaf y llw hwn yng ngŵydd Duw.

Gollyngant ddwylo.
Cymer y briodferch law dde'r priodfab yn ei llaw dde, a dywed:
Yr wyf fi, *E*, yn dy gymryd di, *E*,
yn ŵr i mi,
i'th gadw a'th gynnal
o'r dydd hwn ymlaen;
er gwell, er gwaeth,
er cyfoethocach, er tlotach,
yn glaf ac yn iach,
i'th garu a'th ymgeleddu,
tra byddwn ni'n dau byw;
yn ôl cyfraith sanctaidd Duw.
Gwnaf y llw hwn yng ngŵydd Duw.

Gollyngant ddwylo.

RHOI MODRWYAU

Y mae'r gweinidog yn derbyn y modrwyau (y fodrwy) ac yn dweud y weddi hon:
Dad nefol, trwy dy fendith bydded *y modrwyau hyn (y fodrwy hon)* i *E* ac *E* yn symbol o gariad a ffyddlondeb diddiwedd, i'w hatgoffa o'r llw a'r cyfamod a wnaethant y dydd hwn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Mae'r briodferch a'r priodfab yn wynebu ei gilydd. Mae'r naill yn ei dro yn gosod modrwy ar fys y llall a, chan ei dal yno, yn dweud:
E, yr wyf yn rhoi i ti y fodrwy hon yn arwydd o'm cariad a'm ffyddlondeb.
Anrhydeddaf di â'm corff, rhoddaf i ti yr hyn oll a ydwyf, a rhannaf â thi bopeth sydd gennyf, yng nghariad Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

Neu, os un fodrwy yn unig sydd i'w rhoi, dywed y sawl sy'n ei derbyn:
E, yr wyf yn derbyn y fodrwy hon yn arwydd o'r cariad a'r ffyddlondeb rhyngom.
Anrhydeddaf di â'm corff, rhoddaf i ti yr hyn oll a ydwyf, a rhannaf â thi bopeth sydd gennyf, yng nghariad Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

Mae'r gweinidog yn annerch y bobl:
Yng ngŵydd Duw a gerbron y gynulleidfa hon y mae *E* ac *E* wedi cydsynio â'i gilydd a gwneud eu llwon priodas y naill i'r llall. Y maent wedi datgan eu priodas drwy gysylltu dwylo a thrwy roi a derbyn *modrwyau (modrwy)*. Gan hynny yr wyf yn cyhoeddi eu bod yn ŵr a gwraig ynghyd.

Mae'r gweinidog yn cysylltu llaw dde'r ddau ynghyd ac yn dweud:
Y rhai a gysylltodd Duw, peidied neb â'u gwahanu.

BENDITHIO'R BRIODAS

Gellir bendithio'r briodas naill ai yma neu ar ôl Gweddi'r Arglwydd.
Mae'r gŵr a'r wraig yn penlinio, a gall y gweinidog ddefnyddio'r fendith a ganlyn:
Pob moliant a gogoniant i ti, Dduw graslonaf,
oherwydd yn y dechreuad creaist ni ar dy ddelw dy hun yn wryw a benyw.
Gweddïwn ar iti fendithio *E* ac *E*,
fel y byddant yn eu priodas yn ffynhonnell bendith i'w gilydd ac i bawb,
ac y byddant fyw ynghyd mewn cariad sanctaidd. **Amen**

Dywed y sawl sy'n gweinyddu'r cymun wrth y ddeuddyn:
Bydded i Dduw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glân
eich bendithio a'ch amddiffyn a'ch cadw;
edryched yr Arglwydd yn ei drugaredd yn gariadus arnoch,
a'ch llenwi â phob bendith a gras ysbrydol
fel y byddwch byw yn y fath fodd yn y bywyd hwn
nes cael yn y byd sydd i ddod fywyd tragwyddol. **Amen**

COFRESTRU'R BRIODAS

Gellir cofrestru'r briodas naill ai yma neu ar ddiwedd y gwasanaeth.
[Gellir canu anthem neu gân.]

YMBILIAU

Fel rheol, bydd y gweddïau'n cynnwys y themâu a ganlyn
- *Diolchgarwch*
- *Cynnydd ysbrydol*
- *Ffyddlondeb, llawenydd, cariad, maddeugarwch ac iachâd*
- *Plant, aelodau eraill o'r teulu a chyfeillion*

Dylid cadw distawrwydd ar ôl pob deisyfiad.
Gellir defnyddio ymatebion priodol, er enghraifft:

Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.

Arglwydd, clyw ni,
Yn rasol clyw ni, O Arglwydd.

Arnat ti, Arglwydd, y gweddïwn,
Arglwydd, trugarha.

Mae'r weddi'n cloi â cholect addas a ddywedir gan yr offeiriad neu â'r canlynol:

Dad trugarog,
derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Neu un o'r ffurfiau yn yr Atodiad.

Y TANGNEFEDD

Gall yr offeiriad gyflwyno'r Tangnefedd â brawddeg briodol.
Gellir defnyddio'r canlynol:
Tros y rhain i gyd gwisgwch gariad.
Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn eich calonnau.
Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Neu:

Yr ydym wedi dathlu cariad *E* ac *E*.
Yr ydym yn awr yn dathlu cariad Duw at bawb ohonom.
Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Gellir ychwanegu'r geiriau hyn:
Gadewch inni roi i'n gilydd arwydd o dangnefedd.
Gall pawb gyfnewid arwydd o dangnefedd.
Gall y pâr priod gyfnewid arwydd o dangnefedd â'i gilydd, â'u teuluoedd ac ag aelodau eraill o'r gynulleidfa.

[Gellir canu emyn.]

YR OFFRWM

Y DIOLCH

Defnyddir un o'r Gweddïau Ewcharistaidd awdurdodedig.

DEFOD Y CYMUN

GWEDDI'R ARGLWYDD

BENDITHIO'R BRIODAS
(onis defnyddiwyd eisoes)

TORRI'R BARA

RHOI'R CYMUN

[Gellir canu emyn.]

YR ANFON ALLAN

Gellir defnyddio brawddeg Ôl-Gymun.
Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi, medd yr Arglwydd. *(Ioan 13.34)*

GWEDDI ÔL-GYMUN

Dduw grasol,
bydded i *E* ac *E* a rwymwyd ynghyd
yn y dirgeleddau sanctaidd hyn,
ddod yn un, gorff ac enaid.
Bydded iddynt fyw mewn ffyddlondeb a thangnefedd
a darganfod y llawenydd tragwyddol hwnnw
a baratowyd i bawb sy'n dy garu di;
trwy dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

Daw'r offeiriad â'r gwasanaeth i ben gyda'r fendith hon neu fendith addas arall:
Bydded i Dduw'r Drindod Fendigaid
eich cryfhau mewn ffydd a gobaith a chariad,
eich tywys mewn gwirionedd a thangnefedd;
a'ch amddiffyn ar bob tu;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
Amen.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd. (Halelwia, Halelwia!)
Yn enw Crist. (Halelwia, Halelwia!)

DRAFFT O WASANAETH PRIODAS

(MAR 2) Chwefror 2010

Strwythur

Y Dod Ynghyd
- Croeso
- Colect

Cyhoeddi'r Gair
- Darlleniadau
- Homili

Y Llwon Priodas
- Datganiadau
- Llwon
- Rhoi Modrwyau (Modrwy)
- Cyhoeddi
- Bendithio'r Briodas

Y Gweddïau
- Ymbiliau
- Gweddi'r Arglwydd
- Bendith

Cofrestru'r Briodas

Y GWASANAETH PRIODAS

Y Dod Ynghyd

Gellir canu emyn.

Mae'r offeiriad yn croesawu'r bobl:

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.
Amen.
Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
A'th gadw di yng nghariad Crist.

Neu yn nhymor y Pasg:

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Mae'r gynulleidfa'n eistedd.
Mae'r briodferch a'r priodfab yn parhau i sefyll.
Defnyddir y canlynol neu Ragarweiniad arall o'r Atodiad.

Daethom ynghyd i dystio i briodas *E* ac *E*, i weddïo am fendith Duw arnynt, i rannu yn eu llawenydd ac i ddathlu eu cariad. Rhodd oddi wrth Dduw yw priodas. Trwyddi gall gŵr a gwraig gyd-dyfu yn eu hadnabyddiaeth o Dduw, eu cariad ato a'u gwasanaeth iddo. Fe'i rhoddir fel y gallant, a hwythau'n un â'i gilydd o galon a meddwl a chorff, gynyddu mewn cariad ac ymddiriedaeth. Y mae Duw yn uno gŵr a gwraig mewn uniad am oes sy'n sylfaen i fywyd teuluol, lle (y genir ac y megir plant ac) y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac amseroedd drwg, gael nerth, cwmnïaeth a chysur a thyfu i aeddfedrwydd mewn cariad. Y mae'n cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r gymuned.

Y mae priodas yn ffordd o fyw a sancteiddiwyd gan Dduw, ac a fendithiwyd gan bresenoldeb Iesu yn y briodas yng Nghana Galilea. Dylai pawb ei pharchu a'i hanrhydeddu. Ni ddylai neb ei chymryd arno'n ysgafn nac yn hunanol, ond yn bwyllog ac yn gyfrifol yng ngŵydd Duw Hollalluog. Y mae *E* ac *E* yn awr am gymryd y ffordd hon o fyw. Bydd y naill yn rhoi ei gydsyniad i'r llall ac yn gwneud llwon difrifol, ac fel arwydd o hyn byddant yn rhoi ac yn derbyn *modrwyau (modrwy*). Gweddïwn drostynt, ar i'r Ysbryd Glân eu cyfarwyddo a'u nerthu, fel y cyflawnant amcanion Duw gydol eu bywyd daearol ynghyd.

Dywed yr offeiriad wrth y gynulleidfa:
Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na all y personau hyn briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Dywed yr offeiriad wrth y ddeuddyn:
E ac *E*, yr ydych ar fin gwneud eich llwon priodas yng ngŵydd Duw, barnwr pawb, sy'n gwybod cyfrinachau ein calonnau; felly, os gŵyr y naill neu'r llall ohonoch am unrhyw reswm paham na allwch briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Mae'r gweinidog yn gwahodd y bobl i weddïo; cedwir distawrwydd; dywed y gweinidog y colect.

Naill ai:
Dduw ein Tad, fe'n dysgaist trwy dy Fab mai cariad yw cyflawniad y Gyfraith. Caniatâ fod i'th weision *E* ac *E*, o garu ei gilydd, aros yn dy gariad di holl ddyddiau eu bywyd: trwy Iesu Grist ein Harglwydd y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân bob cariad a phob gogoniant dros amser a thros dragwyddoldeb.
Amen

Neu defnyddir un o'r Dewisiadau Eraill yn yr Atodiad.

Cyhoeddi'r Gair

Darlleniadau
Defnyddir o leiaf ddau ddarlleniad o'r Beibl. Dylai un ohonynt fod o'r Testament Newydd.

Gall homili ddilyn y darlleniadau.

Gellir canu emyn.

Y Briodas

Y DATGANIADAU

Saif y briodferch a'r priodfab gerbron y gweinidog.

Dywed y gweinidog wrth y priodfab:
E, a gymeri di *E* yn wraig i ti? A wnei di ei charu, ei chysuro, ei hanrhydeddu a gofalu amdani, a chan wrthod pawb arall, fod yn ffyddlon iddi tra byddwch eich dau byw?

Y mae yntau'n ateb:
Gwnaf.

Dywed y gweinidog wrth y briodferch:
E, a gymeri di *E* yn ŵr i ti? A wnei di ei garu, ei gysuro, ei anrhydeddu a gofalu amdano, a chan wrthod pawb arall, fod yn ffyddlon iddo tra byddwch eich dau byw?

Y mae hithau'n ateb:
Gwnaf.

Dywed y gweinidog wrth y gynulleidfa:
A wnewch chwi, deuluoedd a chyfeillion *E* ac *E*, eu cynnal a'u cefnogi yn eu priodas yn awr ac yn y blynyddoedd sydd i ddod?

Dywed pawb:
Gwnawn.

Cyflwyna'r gweinidog y llwon â'r geiriau hyn neu eiriau cyffelyb:
E ac *E*, yr ydych yn awr i gysylltu dwylo a gwneud eich llwon, yng ngŵydd Duw a'i bobl.

Mae'r briodferch a'r priodfab yn wynebu ei gilydd.

Cymer y priodfab law dde'r briodferch yn ei law dde, a dywed:
Yr wyf fi, *E*, yn dy gymryd di, *E*,
yn wraig i mi,
i'th gadw a'th gynnal
o'r dydd hwn ymlaen;
er gwell, er gwaeth,
er cyfoethocach, er tlotach,
yn glaf ac yn iach,
i'th garu a'th ymgeleddu,
tra byddwn ni'n dau byw;
yn ôl ewyllys a phwrpas Duw.
Gwnaf y llw hwn yng ngŵydd Duw.
Gollyngant ddwylo.

Cymer y briodferch law dde'r priodfab yn ei llaw dde, a dywed:
Yr wyf fi, *E*, yn dy gymryd di, *E*,
yn ŵr i mi,
i'th gadw a'th gynnal
o'r dydd hwn ymlaen;
er gwell, er gwaeth,
er cyfoethocach, er tlotach,
yn glaf ac yn iach,
i'th garu a'th ymgeleddu,
tra byddwn ni'n dau byw;
yn ôl ewyllys a phwrpas Duw.
Gwnaf y llw hwn yng ngŵydd Duw.

Gollyngant ddwylo.

Y mae'r gweinidog yn derbyn y modrwyau (y fodrwy) ac yn defnyddio'r fendith hon neu fendith addas arall:
Dad nefol, trwy dy fendith bydded y modrwyau hyn (*y fodrwy hon)* i *E* ac *E* yn symbol o gariad a ffyddlondeb diddiwedd, i'w hatgoffa o'r llw a'r cyfamod a wnaethant y dydd hwn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Mae'r briodferch a'r priodfab yn wynebu ei gilydd. Mae'r naill yn ei dro yn gosod modrwy ar fys y llall a, chan ei dal yno, yn dweud:

E, yr wyf yn rhoi i ti y fodrwy hon yn arwydd o'm cariad a'm ffyddlondeb. Anrhydeddaf di â'm corff, rhoddaf i ti yr hyn oll a ydwyf, a rhannaf â thi bopeth sydd gennyf, yng nghariad Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

[*Neu, os un fodrwy yn unig sydd i'w rhoi, dywed y sawl sy'n ei derbyn:*
E, yr wyf yn derbyn y fodrwy hon yn arwydd o'r cariad a'r ffyddlondeb rhyngom. Anrhydeddaf di â'm corff, rhoddaf i ti yr hyn oll a ydwyf, a rhannaf â thi bopeth sydd gennyf, yng nghariad Duw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.]

Mae'r gweinidog yn annerch y bobl:
Yng ngŵydd Duw a gerbron y gynulleidfa hon y mae *E* ac *E* wedi cydsynio â'i gilydd a gwneud eu llwon priodas y naill i'r llall. Y maent wedi datgan eu priodas drwy gysylltu dwylo a thrwy roi a derbyn *modrwyau (modrwy)*. Gan hynny yr wyf yn cyhoeddi eu bod yn ŵr a gwraig ynghyd.

Mae'r gweinidog yn cysylltu llaw dde'r ddau ynghyd ac yn dweud:
Y rhai a gysylltodd Duw, peidied neb â'u gwahanu.

Bendithio'r Briodas

Mae'r gŵr a'r wraig yn penlinio, a gall y gweinidog ddefnyddio'r fendith hon neu fendith addas arall:

Pob moliant a gogoniant i ti, Dduw graslonaf,
oherwydd yn y dechreuad creaist ni ar dy ddelw dy hun yn wryw a benyw.
Gweddïwn ar iti fendithio *E* ac *E*,
fel y byddant yn eu priodas
yn ffynhonnell bendith i'w gilydd ac i bawb,
ac y byddant fyw ynghyd
mewn cariad sanctaidd hyd derfyn eu hoes.

Bydded i Dduw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glân
eich bendithio a'ch amddiffyn a'ch cadw;
edryched yr Arglwydd yn ei drugaredd yn gariadus arnoch,
a'ch llenwi â phob bendith a gras ysbrydol
fel y byddwch byw yn y fath fodd yn y bywyd hwn
nes cael yn y byd sydd i ddod fywyd tragwyddol. **Amen**

Cofrestru'r Briodas

Gellir Cofrestru'r Briodas yma neu ar derfyn y gwasanaeth.

Gellir canu anthem neu emyn.

Yr Ymbiliau

Fel rheol, bydd y gweddïau'n cynnwys y themâu a ganlyn

- *Diolchgarwch*
- *Cynnydd ysbrydol*
- *Ffyddlondeb, llawenydd, cariad, maddeugarwch ac iachâd*
- *Plant, aelodau eraill o'r teulu a chyfeillion*

Dylid cadw distawrwydd ar ôl pob deisyfiad.
Gellir defnyddio ymatebion priodol, er enghraifft:

Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi.

Arglwydd, clyw ni,
Yn rasol clyw ni, O Arglwydd.

Arnat ti, Arglwydd, y gweddïwn,
Arglwydd, trugarha.

Neu un o'r ffurfiau yn yr Atodiad.

Mae'r gweddïau'n diweddu gyda Gweddi'r Arglwydd.

Naill ai:
Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:
Ein Tad,
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.
Amen.

Neu:

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn
Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ŷm ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr Un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant am byth.
Amen.

Gellir canu emyn.

Daw'r gweinidog â'r gwasanaeth i ben gyda'r fendith hon neu fendith addas arall:
Bydded i Dduw'r Drindod Fendigaid
eich cryfhau mewn ffydd, gobaith a chariad,
eich tywys mewn gwirionedd a thangnefedd
a'ch amddiffyn ar bob tu;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Nodiadau ar y Gwasanaeth Priodas

1 Paratoi

Traddodiad ac arfer yr Eglwys yng Nghymru yw cynnig paratoad at briodas i barau sydd i'w priodi'n fuan, a bod ar gael i roi cyngor a chynhaliaeth yn y blynyddoedd sy'n dilyn.

2 Paratoadau Cyfreithiol

Fel rheol, gweinyddir priodas yn ôl defodau'r Eglwys yng Nghymru ar ôl cyhoeddi gostegion. Cyhoeddir y gostegion gan y gweinidog ym mhrif wasanaeth yr eglwys ar dri Sul yn ystod y tri mis cyn y briodas, a rhaid eu darllen yn y ffurf a ganlyn:

"Yr wyf yn cyhoeddi gostegion priodas rhwng *EE* o ('r plwyf hwn neu o blwyf ...) ac EE o ('r plwyf hwn neu o blwyf ...). Os gŵyr neb ohonoch am unrhyw reswm cyfreithlon na allant briodi ei gilydd, yr ydych i fynegi hynny. Dyma'r *tro cyntaf/ ail dro/ trydydd tro* y gofynnir hyn.

"Gweddïwn dros y parau hyn (*neu E* ac *E*) wrth iddynt baratoi at briodi." Gellir dweud gweddi addas.

Os bydd y ddau sydd i'w priodi yn byw mewn plwyfi gwahanol, rhaid cyhoeddi'r gostegion yn y ddau blwyf, ac ni all gweinidog y naill blwyf weinyddu'r briodas heb iddo dderbyn Tystysgrif Cyhoeddi'r Gostegion gan weinidog y plwyf arall. Rhaid i'r dystysgrif ddatgan na honnwyd unrhyw rwystr. Os yw enw'r naill neu'r llall o'r ddau sydd i'w priodi ar Rôl Etholwyr plwyf lle nad yw'r un ohonynt yn byw, gellir gweinyddu'r briodas yn y plwyf hwnnw, os cyhoeddwyd y gostegion yn y plwyf hwnnw a hefyd yn y plwyf neu'r plwyfi lle y maent yn byw.

Os cedwir yr holl amodau sifil ac eglwysig, gellir rhoi trwydded gyffredin trwy Syrogat i ganiatáu gweinyddu priodas heb ostegion. Mewn amgylchiadau eithriadol gall Archesgob Caergaint roi trwydded arbennig i ganiatáu gweinyddu heb ostegion.

3 Dod i mewn

Gall y briodferch ddod i mewn i'r eglwys ar ei phen ei hun, neu gael ei hebrwng gan ei thad neu gynrychiolydd o'r teulu neu gyfaill, neu gall y briodferch a'r priodfab ddod i mewn i'r eglwys gyda'i gilydd.

4 Cofrestru'r Briodas

Mae'r gyfraith yn gofyn cwblhau'r cofrestri yn union wedi gweinyddu'r briodas. Fel rheol, fe wneir hynny ar ddiwedd y gwasanaeth, ond fe all ddigwydd ar ôl Bendithio'r Briodas. Rhaid i'r ddau a briodwyd, y gweinidog a oedd yn gweinyddu, a dau dyst i'r briodas arwyddo'r cofrestri.

5 Y Cymun Bendigaid
Mae'n briodol bod aelodau sy'n gymunwyr yn yr Eglwys yn derbyn y cymun yn fuan ar ôl eu priodas. Yn achos rhai, gall fod yn briodol cynnal y briodas oddi mewn i weinyddiad o'r Cymun Bendigaid.

6 Darlleniadau Anfeiblaidd
Yn ôl doethineb y gweinidog, gellir cynnwys darlleniadau anfeiblaidd addas.

7 Darpariaethau Eciwmenaidd
Pan wahoddir gweinidog mewn Eglwys Gristnogol arall i gynorthwyo mewn Gwasanaeth Priodas, rhaid i weinidog yr Eglwys yng Nghymru sy'n gweinyddu'r briodas sefydlu nad oes rhwystr, cyfarwyddo'r cyfnewid llwon, cyhoeddi'r briodas, rhoi'r fendith derfynol ac arwyddo'r cofrestri.

Bendithio Priodas yn dilyn Seremoni Sifil

(MAR3) Chwefror 2010

Nodiadau ar Fendithio Priodas yn dilyn Seremoni Sifil

Pan fo dau berson wedi priodi mewn Seremoni Sifil ac yn dymuno derbyn bendith yr Eglwys ar eu huniad, rhaid i'r gweinidog ofyn iddynt ddangos tystysgrif y briodas. Os yw'r gweinidog yn fodlon nad yw eu priodas yn groes i gyfreithiau'r Eglwys yng Nghymru, gall fynd ymlaen â'r drefn a ganlyn.

Ni elwir Gostegion ac ni chedwir cofnod yn y Gofrestr Priodasau.

Gall y gŵr a'r wraigwisgo modrwy(au) priodas neu, onis gwisgwyd eisoes, gellir eu bendithio a'u gwisgo yn ystod y gwasanaeth.

Bydd y gŵr a'r wraig yn cyrraedd gyda'i gilydd ac yn eistedd yn nhu blaen yr eglwys.

Gellir defnyddio Ymbiliau a Gweddïau priodol eraill a fydd yn adlewyrchu ffydd y ddeuddyn.

Bendithio Priodas yn dilyn Seremoni Sifil

Y Dod Ynghyd
Gellir canu emyn.

Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
a'th gadw di yng nghariad Crist.

Neu yn nhymor y Pasg:
Alelwia! Atgyfododd Crist!
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Gellir defnyddio yma'r Litwrgi Dod Ynghyd o'r Atodiad.

Rhagarweiniad
Mae'r gynulleidfa'n eistedd.
Mae'r ddeuddyn yn parhau i sefyll gerbron y gweinidog.

Naill ai:
Daethom ynghyd yng ngŵydd Duw am fod *E* ac *E*, sydd eisoes yn briod, yn ceisio bendith Duw ar eu priodas.

Rhodd Duw i'w bobl yw priodas, fel y bo i ŵr a gwraig ddarganfod gras Duw yn eu bywyd ynghyd. Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, lle y megir plant ac y caiff pob aelod o'r teulu gariad a nerth, cwmnïaeth a chysur, parch a chyfanrwydd.

Y mae priodas yn uniad am oes rhwng gŵr a gwraig lle, a hwythau'n un â'i gilydd mewn corff, meddwl ac ysbryd, y bo eu cariad yn sanctaidd ac yn adlewyrchiad o gariad Crist at ei Eglwys.

Y mae hefyd yn cyfoethogi cymdeithas ac yn cryfhau'r holl gymuned. Daw â sefydlogrwydd ac ymrwymiad i fyd sy'n aml yn fregus a rhanedig.

Felly, dylai pawb anrhydeddu a pharchu a mawrygu priodas, ac ni ddylai'r sawl sy'n rhoi ei gilydd y naill i'r llall mewn priodas wneud hynny ond wedi ystyriaeth fanwl ac â chalonnau llawn cariad a llwyr ymrwymiad i'r ffordd arbennig hon o fyw.

Neu:

Daethom ynghyd mewn llawenydd am fod *E* ac *E*, sydd eisoes yn briod, am ofyn am fendith Duw ar eu priodas. Rhodd oddi wrth Dduw yw priodas. Trwyddi gall gŵr a gwraig gyd-dyfu yn eu hadnabyddiaeth o Dduw, eu cariad ato a'u gwasanaeth iddo. Fe'i rhoddir fel y gallant, a hwythau'n un â'i gilydd o galon a meddwl a chorff, gynyddu mewn cariad ac ymddiriedaeth. Y mae Duw yn uno gŵr a gwraig mewn uniad am oes sy'n sylfaen i fywyd teuluol, lle (y genir ac y megir plant ac) y gall pob aelod o'r teulu, mewn amseroedd da ac amseroedd drwg, gael nerth, cwmnïaeth a chysur a thyfu i

aeddfedrwydd mewn cariad. Y mae'n cyfoethogi'r gymdeithas ac yn cryfhau'r gymuned.

Y mae priodas yn ffordd o fyw a sancteiddiwyd gan Dduw ac y dylai pawb ei pharchu a'i hanrhydeddu. Ni ddylai neb ei chymryd arno'n ysgafn nac yn hunanol, ond yn bwyllog ac yn gyfrifol yng ngŵydd Duw Hollalluog. Y mae *E* ac *E* yn awr am gymryd y ffordd hon o fyw. Gweddïwn gyda hwy y bydd i'r Ysbryd Glân eu cyfarwyddo a'u nerthu, fel y cyflawnant amcanion Duw gydol eu bywyd daearol ynghyd.

Neu ragarweiniad o'r Atodiad

Yna y mae'r gweinidog yn cyfarch y ddeuddyn:
Ai dyma eich dealltwriaeth o'r cyfamod a'r addewid a wnaethoch y naill i'r llall pan briodwyd chwi ac yr ydych yn awr yn ceisio bendith Duw arnynt?

Atebant:

Ie.

Y mae'r gweinidog yn cyfarch y bobl:
Y mae *E* ac *E* wedi cadarnhau eu dealltwriaeth Gristnogol o briodas. A ydych chwi, eu teulu a'u cyfeillion, yn addo eu cefnogi a'u calonogi yn eu bywyd gyda'i gilydd?

Atebant:

Ydym.

Yna gall y gweinidog annerch y ddeuddyn:

Y mae'r Arglwydd yn sefyll wrth y drws ac yn curo.
Wrth ofyn am fendith Duw ar eich priodas,
yr ydych wedi ei wahodd i mewn i'ch bywyd ynghyd
a chynnig iddo le i fyw.
Llanwed y cariad a ddaw gydag ef eich calonnau a'ch cartref
â sêl dros yr efengyl
a chariad at ei ffordd,
fel y bo i'ch bywyd ynghyd adlewyrchu ei bresenoldeb
a dangos i eraill sut i ddilyn Crist.

(Addas yn achos rhai a briodwyd gryn amser ynghynt):

Ers blynyddoedd buoch yn byw ac yn caru,
yn un â'ch gilydd mewn priodas,
ac yn awr daethoch i geisio bendith barhaus Duw.
Bu ef gyda chwi mewn amseroedd da ac amseroedd drwg,
mewn anawsterau a pheryglon,
mewn chwerthin a galar.
Yr ydych yn awr yn agor iddo eich calonnau a'ch cartref,
fel y gweler ac yr adnabydder Crist.
Yr ydych yn offrymu eich priodas iddo
i'w bendithio a'i sancteiddio,
fel y parhewch i dyfu ynghyd mewn cariad.

Colect

Gweddïwn.

Naill ai:

Y colect o'r Gwasanaeth Priodas

Ne un o'r gweddïau eraill yn yr Atodiad

Cyhoeddi'r Gair

Defnyddir Gweinidogaeth y Gair yn Nhrefn y Gwasanaeth Glân Briodas.

Homili

Gweithred gysegru

Saif y ddeuddyn gerbron y gweinidog.

Dywed y gweinidog wrth y gŵr:

E, yr wyt wedi cymryd *E* yn wraig i ti? A wnei di fyw gyda hi mewn ufudd-dod i orchymyn Crist? A wnei di barhau i'w charu, ei hanrhydeddu a gofalu amdani, er gwell, er gwaeth, er cyfoethocach, er tlotach, yn glaf ac yn iach? A fyddi di'n ffyddlon iddi, ac iddi hi'n unig, tra byddwch eich dau byw?

Y mae yntau'n ateb:

Gwnaf.

Dywed y gweinidog wrth y wraig:

E, yr wyt wedi cymryd *E* yn ŵr i ti? A wnei di fyw gydag ef mewn ufudd-dod i orchymyn Crist? A wnei di barhau i'w garu, ei anrhydeddu a gofalu amdano, er gwell, er gwaeth, er cyfoethocach, er tlotach, yn glaf ac yn iach? A fyddi di'n ffyddlon iddo, ac iddo ef yn unig, tra byddwch eich dau byw?

Y mae hithau'n ateb:

Gwnaf.

Yna gall y ddeuddyn ddweud gyda'i gilydd

Naill ai:

Dad nefol,
cyflwynwn i ti yr hyn oll a ydym
a'r hyn oll y gobeithiwn fod.
Cyflwynwn i ti ein cariad at ein gilydd
a'n bywyd ynghyd.
Cynorthwya ni i fyw fel y mynni di,
fel y gallwn dyfu ynghyd
mewn cariad a thangnefedd
holl ddyddiau ein bywyd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Neu:

O Dad,
cyflwynwn i ti ein cariad at ein gilydd,
a'n bywyd ynghyd,
ein breuddwydion a'n dyheadau,
ein gobeithion a'n huchelgeision,
ein gorffennol a'n presennol a'n dyfodol.
Cynorthwya ni i'th ddarganfod yn ein priodas,
a gofynnwn dy fendith arni;
trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

Gweddi uwchben y modrwyau (y fodrwy)
Os gwisgir modrwy(au), gall y ddeuddyn estyn y llaw y gwisgir y fodrwy arni i dderbyn bendith ar y fodrwy.Gellir defnyddio'r canlynol:

Naill ai:

O Dad, y mae dy gariad diderfyn yn lapio amdanom a'n cofleidio
yng ngrym addfwyn dy Ysbryd
a breichiau agored dy Fab.
Bydded y modrwyau hyn (*y fodrwy hon*)
yn symbol o gariad a ffyddlondeb *E* ac *E* y naill i'r llall
ac yn alwad i gadw'r addewidion a wnaethant yn dy ŵydd.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

Neu:

Pan briodwyd chwi, fe gyfnewidiwyd yn arwydd
o'ch cariad a'ch ffyddlondeb i'ch gilydd
y modrwyau hyn (*y fodrwy hon*) yr ydych yn awr yn *eu /ei* gwisgo.
Bydded *iddynt / iddi* barhau yn arwydd o'r addewidion a wnaethoch
ac o'r briodas y gofynasoch i Dduw ei bendithio. Amen.

Neu:

Weddi arall o'r Atodiad.

Bendithio'r Ddeuddyn
Penlinia'r ddeuddyn.

Naill ai:

Pob moliant a gogoniant i ti, Dduw graslonaf,
oherwydd yn y dechreuad creaist ni ar dy ddelw dy hun yn wryw a benyw.
Gweddïwn ar iti fendithio *E* ac *E*,
fel y byddant yn eu priodas yn ffynhonnell bendith i'w gilydd ac i bawb,
ac y byddant fyw ynghyd mewn cariad sanctaidd. **Amen**

Bydded i Dduw Dad, Duw Fab, a Duw Ysbryd Glân
eich bendithio a'ch amddiffyn a'ch cadw;
edryched yr Arglwydd yn ei drugaredd yn gariadus arnoch,
a'ch llenwi â phob bendith a gras ysbrydol
fel y byddwch byw yn y fath fodd yn y bywyd hwn
nes cael yn y byd sydd i ddod fywyd tragwyddol. **Amen**

Neu weddi arall o'r Atodiad.

Gellir canu emyn.

Gweddïau /Ymbiliau
Gellir defnyddio'r gweddïau yn y Gwasanaeth Priodas, ond gall fod yn fwy addas defnyddio gweddïau eraill a fydd yn adlewyrchu bywyd, ffydd ac amgylchiadau'r ddeuddyn. Gweler yr Atodiad.

Gellir terfynu'r gweddïau gyda diweddglo priodol, megis:

Dad trugarog,
derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.

Neu, oni weinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y gweddïau'n diweddu gyda Gweddi'r Arglwydd:

Ein Tad . . .

Os gweinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y Litwrgi'n parhau â'r Tangnefedd.
Fel arall, bydd yn diweddu â'r canlynol:

Y Fendith

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Naill ai:

Bydded i Dduw'r Drindod Fendigaid
eich cryfhau mewn ffydd a gobaith a chariad,
eich tywys mewn gwirionedd a thangnefedd;
a'ch amddiffyn ar bob tu;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Neu fendith arall o'r Atodiad

Gellir canu emyn.

ATODIAD O DDEUNYDD YCHWANEGOL

Mae'r Atodiad yn cynnwys gwahanol ddewisiadau ac awgrymiadau ar gyfer y Gwasanaeth Priodas a'r Gwasanaeth Bendithio Priodas Sifil.

Litwrgi Dod Ynghyd

Y Briodferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn sefyll yma yng ngŵydd llawer o bobl sydd wedi lliwio tirwedd ein bywydau ac a fu'n gymdeithion inni ar ein taith. Yr ydym yn eich croesawu ac yn diolch ichwi am fod gyda ni heddiw.

Pawb: **Bydded yr Arglwydd gyda chwi ar y diwrnod llawen hwn.**

Y Briodferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn diolch i'n rhieni a'n teuluoedd sydd wedi ein magu a'n meithrin a'n cynorthwyo i'n gwneud yr hyn ydym. Yr ydym yn eich croesawu ac yn diolch ichwi am bopeth a roddasoch inni.

Y Rhieni a /neu Aelodau'r Teulu:

Bydded yr Arglwydd gyda chwi yn eich bywyd ynghyd.

Y Briodferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn galaru am bob cyfeillgarwch a adawsom ac am bob camgymeriad a wnaethom, ac yn gofyn am i ras a maddeuant Duw lewyrchu yn ein bywydau.

Gweinidog: Bydded yr Arglwydd gyda chwi a rhodded i chwi'r hyder a'r dewrder i gofleidio'i gariad.

Y Briodferch neu'r Priodfab:

Yr ydym yn sefyll yma heddiw yng ngŵydd Duw, a dywalltodd ei gariad arnom, i ofyn am ei fendith ar ein priodas.

Distawrwydd

Yna â'r gweinidog ymlaen gyda geiriau'r rhagarweiniad.

Rhagarweiniadau Eraill i'r Gwasanaeth Priodas

Gellir addasu'r rhain at Wasanaeth Bendithio Priodas Sifil trwy ddefnyddio'r geiriau a ddangosir mewn llythrennau eidalaidd, trwy hepgor y gofyn am rwystrau i'r Briodas a thrwy ofyn i'r ddeuddyn ai dyma eu dealltwriaeth o Lân Briodas.

I.

Geilw Duw ni oll i fyw ynghyd mewn cariad, i nesáu at ein gilydd mewn parch a goddefgarwch, yn agored ac yn onest, i arddel ei ddymuniad i'r byd ac i greu cymuned lle y bydd Crist wrth galon popeth a wnawn a phopeth a ddywedwn.

Oddi mewn i'r alwad hon a'r cyfamod hwn o gariad, fe'n bendithiodd Duw â'r rhodd o briodas, lle y bydd gŵr a gwraig yn tyfu gyda'i gilydd i adnabod Duw ag un meddwl, i'w garu ag un galon ac i'w wasanaethu ag un ysbryd. Priodas yw sylfaen bywyd

teuluol, ac ewyllys Duw yw bod geni a magu plant ym mynwes cariad gydol oes eu rhieni. Oddi mewn i'r teulu dylai pob un gael nerth a chynhaliaeth, gofal a chysur at bob amgylchiad mewn bywyd. Trwy'r rhodd hon o briodas, dymuna Duw gryfhau'r gymuned gyfan a dwyn bendithion i bawb.

Gan i Dduw ein bendithio â'r fath rodd, dylai pawb fawrygu a pharchu priodas. Ni ddylai neb briodi heb feddwl yn ddwys ac ystyried yn ddwfn y cyfan a olyga. Dewisodd *E* ac *E* dderbyn y rhodd hon oddi wrth Dduw. Gweddïwn drostynt, ar i Ysbryd Duw eu tywys a'u nerthu fel y bo i'w rodd lewyrchu yn eu bywyd a llewyrchu trwyddynt i'r holl gymuned.

Os oes unrhyw reswm dilys paham na all y personau hyn briodi'n gyfreithlon, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyn:
Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

II.
Y mae Duw'n arllwys ei roddion arnom, yn ein llenwi â'i gariad, ac yn ein galw i fyw ynghyd i greu cymuned lle y perchir pawb. Un o'r rhoddion hyn yw priodas. Fe'i rhoddir fel y gall gŵr a gwraig ymrwymo y naill i'r llall mewn cyfamod o gariad, gan addo byw ynghyd am weddill eu bywydau. Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, a dull Duw o ddwyn llawenydd a sefydlogrwydd i gymdeithas. Geilw Duw ŵr a gwraig i fyw yn unol â'i gynllun i'r byd ac i ddarparu cartref cariadus i blant lle y gall pob un yn y teulu dyfu i'w adnabod ef a'i gariad atynt. Dylai pawb felly anrhydeddu priodas.

Saif *E* ac *E* gerbron Duw i'w cyflwyno eu hunain yn briod y naill i'r llall ac i ofyn i Dduw fendithio eu priodas. Y maent yn gwneud hyn ar ôl dwys feddwl ac ystyried. Safant hefyd ger eich bron chwi, eu cyfeillion a'u teulu, a'ch gwahodd i rannu eu llawenydd ac i'w cefnogi yn y ffordd o fyw y galwyd hwy iddi.

Os oes unrhyw reswm paham y credwch na ddylid eu cysylltu ynghyd, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyn:
Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

III.
Yn y dechreuad, ffurfiodd Duw y ddaear a chreu'r nefoedd. Anadlodd fywyd i bob creadur byw, a lluniodd ŵr a gwraig ar ei ddelw ei hun. Fe'n galwodd i fyw ynghyd yn ei gyfamod o gariad, wedi ein rhwymo y naill i'r llall gan ei addewidion. Bendithiodd ei greadigaeth â phriodas yn arwydd o gariad, a thrwy lawenydd y bywyd priodasol deil i ddwyn trefn i anhrefn y byd. Y mae priodas yn sylfaen gadarn i fywyd teuluol ac yn grud cariadus i eni a magu plant.

Wrth inni ddathlu ei gariad creadigol yn yr arwydd sacramentaidd hwn, gweddïwn y bydd i anadl ei Ysbryd lenwi bywydau *E* ac *E* fel, yn rhwymau'r addewidion a wnânt y datguddiant bresenoldeb Crist a'i wasanaethu mewn ffydd a chariad.

Os oes rheswm dilys paham na ddylid eu cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Yna y mae'r gweinidog yn annerch y ddeuddyn:
Os gwyddoch am unrhyw reswm paham na ellir, yn ôl cyfraith y wlad neu gyfraith yr eglwys hon, eich cysylltu ynghyd mewn priodas, rhaid i chwi ei fynegi yn awr.

Rhagarweiniadau Eraill i Fendithio Priodas yn dilyn Seremoni Sifil

I.
Geilw Duw ni oll i fyw ynghyd mewn cariad, i nesáu at ein gilydd mewn parch a goddefgarwch, yn agored ac yn onest, i arddel ei ddymuniad i'r byd ac i greu cymuned lle y bydd Crist wrth galon popeth a wnawn a phopeth a ddywedwn.

Oddi mewn i'r alwad hon a'r cyfamod hwn o gariad, fe'n bendithiodd Duw â'r rhodd o briodas, lle y bydd gŵr a gwraig yn tyfu gyda'i gilydd i adnabod Duw ag un meddwl, i'w garu ag un galon ac i'w wasanaethu ag un ysbryd. Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, ac ewyllys Duw yw bod geni a magu plant ym mynwes cariad gydol oes eu rhieni. Oddi mewn i'r teulu dylai pob un gael nerth a chynhaliaeth, gofal a chysur at bob amgylchiad mewn bywyd. Trwy'r rhodd hon o briodas, dymuna Duw gryfhau'r gymuned gyfan a dwyn bendithion i bawb.

Gan i Dduw ein bendithio â'r fath rodd, dylai pawb fawrygu a pharchu priodas. Ni ddylai neb briodi heb feddwl yn ddwys ac ystyried yn ddwfn y cyfan a olyga. Eisoes derbyniodd *E* ac *E* y rhodd hon oddi wrth Dduw. Gweddïwn drostynt, ar i Ysbryd Duw eu tywys a'u nerthu fel y bo i'w rodd lewyrchu yn eu bywyd a llewyrchu trwyddynt i'r holl gymuned.

II.
Y mae Duw'n arllwys ei roddion arnom, yn ein llenwi â'i gariad, ac yn ein galw i fyw ynghyd i greu cymuned lle y perchir pawb. Un o'r rhoddion hyn yw priodas. Fe'i rhoddir fel y gall gŵr a gwraig ymrwymo y naill i'r llall mewn cyfamod o gariad, gan addo byw ynghyd am weddill eu bywydau. Priodas yw sylfaen bywyd teuluol, a dull Duw o ddwyn llawenydd a sefydlogrwydd i gymdeithas. Geilw Duw ŵr a gwraig i fyw yn unol â'i gynllun i'r byd ac i ddarparu cartref cariadus i blant lle y gall pob un yn y teulu dyfu i'w adnabod ef a'i gariad atynt. Dylai pawb felly anrhydeddu priodas.

Saif *E* ac *E* gerbron Duw yn bâr priod i ofyn i Dduw fendithio eu priodas. Y maent yn gwneud hyn ar ôl dwys feddwl ac ystyried. Safant hefyd ger eich bron chwi, eu cyfeillion a'u teulu, a'ch gwahodd i rannu eu llawenydd ac i'w cefnogi yn y ffordd o fyw y galwyd hwy iddi.

III.
Yn y dechreuad, ffurfiodd Duw y ddaear a chreu'r nefoedd. Anadlodd fywyd i bob creadur byw, a lluniodd ŵr a gwraig ar ei ddelw ei hun. Fe'n galwodd i fyw ynghyd yn ei gyfamod o gariad, wedi ein rhwymo y naill i'r llall gan ei addewidion. Bendithiodd ei greadigaeth â phriodas yn arwydd o gariad, a thrwy lawenydd y bywyd priodasol deil i ddwyn trefn i anhrefn y byd. Y mae priodas yn sylfaen gadarn i fywyd teuluol ac yn grud cariadus i eni a magu plant.

Wrth inni ddathlu ei gariad creadigol yn yr arwydd sacramentaidd hwn, gweddïwn y bydd i anadl ei Ysbryd lenwi bywydau *E* ac *E* fel, yn rhwymau'r addewidion a wnaethant eisoes y datguddiant bresenoldeb Crist a'i wasanaethu mewn ffydd a chariad.

Colectau

1. Dad nefol, y mae pob calon yn agored i ti.
Ni allwn guddio un dim oddi wrthyt.
Glanha ni â fflam dy Ysbryd Glân
er mwyn inni dy garu a'th addoli'n ffyddlon,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

2. O Dduw ein Tad,
trwy amserau a thymhorau a thro'r blynyddoedd,
trwy broffwydi a phatriarchiaid a gŵyr a gwragedd duwiol,
datguddiaist dy gynllun ar gyfer y byd.
Yng Nghrist gwneir dy gynllun yn glir :
gelwi ni i garu ein gilydd fel y carodd ef ni.
Wrth inni ddathlu cariad *E* ac *E* at ei gilydd
ac ymlawenhau yn eu bywyd ynghyd,
bydded i'w cariad ffynnu a blodeuo
ac i'w bywydau ddatguddio gwanwyn dy deyrnas,
lle y gwneir pob peth yn newydd a'i gwblhau.
Gofynnwn hyn trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

3. O Dduw ein Tad,
trwy fflam dyner dy Ysbryd daeth Crist i ymgartrefu gyda ni,
i gynhesu ein calonnau ac i hysbysu ei bresenoldeb i eraill.
Bydded priodas *E* ac *E*
yn arwydd o'r ffordd y gelwir ni i fyw,
yn llawn llawenydd a sancteiddrwydd
ac yn ymlawenhau ym mhob peth a ddysgodd Crist inni.
Gofynnwn hyn yn enw Crist yr Arglwydd. **Amen.**

4. Dad cariadus,
yr wyt yn perffeithio popeth sy'n annigonol ynom
ac yn gwneud ein llawenydd yn gyflawn,
yr wyt yn cyflenwi ein hanghenion ac yn ein llenwi â dyhead i garu.
Llifed dy gariad yn awr trwy ein bywydau
wrth i'n calonnau lenwi â llawenydd ar ddydd y briodas hon.
Rhodder inni arwydd o bresenoldeb Iesu, y gwestai anweledig,
a gadawer inni yfed o win newydd dy deyrnas.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

5. *(Nid yw i'w ddefnyddio gyda Rhagarweiniad III.)*
O Dduw ein Tad,
yn y dechreuad ffurfiaist y ddaear a chreu'r nefoedd,
anadlu bywyd i bob creadur byw,
a llunio gŵr a gwraig ar dy ddelw dy hun.
Fe'n gelwi i fyw ynghyd yn dy gyfamod o gariad,
wedi ein rhwymo y naill i'r llall gan dy addewidion.
Bendithiaist dy greadigaeth â phriodas
yn arwydd o'th gariad,
a thrwy lawenydd y bywyd priodasol yr wyt yn dal
i ddwyn trefn i anhrefn y byd.
Wrth inni ddathlu dy gariad creadigol
yn yr arwydd sacramentaidd hwn,
anadla dy fywyd ar *E* ac *E*
fel, yn rhwymau'r addewidion a wnânt,
y datguddiant bresenoldeb dy Fab
a'th wasanaethu di mewn ffydd a chariad.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

6. Dad cariadus,
yn dy rodd i'r byd o briodas
rhoddaist arwydd o'th gariad
i bawb sydd am ddilyn ffordd dy Fab.
Trwy fywyd *E* ac *E* ynghyd
bydded i freichiau estynedig Crist
gyffwrdd â phawb y cyfarfyddont â hwy
ac arwyddo dy bresenoldeb yn y byd;
trwy Grist ein Harglwydd. **Amen.**

7. O Dad,
dy rodd o gariad, yn anad undim arall,
sy'n dwyn cynghanedd a thangnefedd i'r byd:
nid oes ffiniau i'w ffydd na therfynau i'w obaith,
y mae'n goddef i'r eithaf ac yn cydlawenhau â'r gwirionedd.
Wrth inni ddathlu cariad *E* ac *E* at ei gilydd
a llawenhau yn yr addewidion a wnaethant (*neu:* a wnânt),
dillader hwy â gwisgoedd dy gariad
a'u llenwi â'r llawenydd o adnabod dy bresenoldeb yn eu bywyd.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

8. Arglwydd bywyd, Rhoddwr llawenydd,
wrth inni ymgynnull i ddathlu priodas *E* ac *E* ,
gelwi ni i wledda ar dy air
ac i yfed gwin newydd dy deyrnas.
Bydded y briodas yr ydym yn ei dathlu
yn arwydd o wledd dragwyddol dy Fab
lle y llawenhawn am byth yn dy bresenoldeb,
ein Brenin a'n Duw. **Amen.**

Gweinidogaeth y Gair

Gellir cymryd y darlleniadau o un o'r setiau a ganlyn a ddosbarthwyd yn ôl thema.

A Taith

Ruth 1.16-18	I ble bynnag yr ei di, fe af finnau
Tobit 8. 5b-8	Awn yn hen yng nghwmni'n gilydd
Effesiaid 3.14-19	Bydded i Grist breswylio yn eich calonnau
Luc 12. 22-31	Peidiwch â phryderu am eich einioes
Luc 12. 32-34	Trysor syml

B Cariad

Caniad Solomon 2. 8-14	Fy nghariad, fy mhrydferth
Caniad Solomon 8. 6-7	Ni all dyfroedd lawer ddiffodd cariad
I Corinthiaid 12. 31-13.13	Y mwyaf o'r rhain yw cariad
Colosiaid 3. 12-17	Y cariad sy'n rhwymyn perffeithrwydd
I Ioan 4. 7-16	O Dduw y mae cariad
Luc 7. 36-38	Cariad a diolchgarwch

C Llawenydd

Philipiaid 4. 4-9	Llawenhau yn Nuw
Ioan 2. 1-11	Gwledd briodas

CH Cwmnïaeth

Pregethwr 4. 9-12	Y mae dau yn well nag un
Rhufeiniaid 12. 4-13	Rhannu cariad
Effesiaid 4. 1-6	Rhwymyn tangnefedd
Marc 10. 6-9, 13-16	Cartref newydd

D Duw

Genesis 1. 26-29a, 31a	Ar ddelw Duw
Jeremeia 31. 31-34	Myfi eu Duw, hwythau'n bobl i mi
Philipiaid 1. 9-11	Cariad sy'n cynyddu
Ioan 15. 1-8	Dwyn ffrwyth

DD Ffydd

Pregethwr 3. 1-8	Amser i bob peth
I Ioan 3. 18-24	Caru mewn gweithred a gwirionedd
Datguddiad 19. 6-19	Gwledd Briodas yr Oen
Mathew 5. 2-11	Y Gwynfydau
Mathew 7. 21, 24-27	Clywed a gwneud

E Teulu

Genesis 12. 1-3	Teuluoedd y ddaear
Effesiaid 3. 14-19, (20)	Pob teulu yn y nefoedd ac ar y ddaear
Marc 10. 6-9 (10-12) 13-16	Yr hyn a gysylltodd Duw

Gweddïau /Datganiadau eraill uwchben y Modrwyau

1. Bydded y modrwyau a wisgwch yn symbol o gariad a ffyddlondeb diderfyn ac yn arwydd o'r bywyd a rannwch a'ch parch y naill at y llall.

2. Parhaed y modrwyau hyn a gyfnewidiasoch yn arwydd o gariad diderfyn a'ch atgoffa mai un cnawd ydych, wedi eich rhwymo ynghyd mewn cyfamod sanctaidd lle na dderfydd cariad ac nad oes ffiniau i bresenoldeb Duw.

Bendithio'r Ddeuddyn

Gellir defnyddio un o'r gweddïau a ganlyn, a diweddu gyda:

…a bendithied Duw chwi, eich llenwi â'i ras a'ch dwyn i lawenydd y bywyd tragwyddol. **Amen**

1. Pan fyddwch yn effro a phan fyddwch ynghwsg,
pan fyddwch yn gweithio a phan fyddwch yn gorffwyso,
pan fyddwch yn cytuno a phan fyddwch yn methu cytuno,
pan fyddwch ynghyd a phan fyddwch ar wahân,
pan fyddwch gartref a phan fyddwch ymhell i ffwrdd,
amgylchyned Crist chwi
a'ch uno yn ei gariad.

2. Goleuer eich cartref â goleuni Duw,
fel, pan fo tywyllwch, y llewyrcha'i gariad
a chwalu cysgodion y nos.

   Bydded drysau eich calonnau bob amser yn agored
   fel y croesawer ac y cartrefer Crist.

   Cynheser eich cartref gan fflam dyner yr Ysbryd
   fel y bydd eich cariad at eich gilydd
   bob amser ynghyn ac yn llawn angerdd.

3. Pan fyddo eich tŷ'n llawn chwerthin
a phan fyddo'n dawel a thrist,
gwybyddwch bresenoldeb yr Arglwydd
sy'n ymgartrefu gyda chwi.

4. Cyffyrdded y cariad sydd gennych at eich gilydd
â phawb a ddaw drwy ddrws eich cartref.

   Caffed pawb o'ch teulu fan
   lle y darganfyddont sut i garu
   a bod yn rhydd i fyw fel y dymuna Duw.

   Maether pawb a eisteddo wrth eich bwrdd
   â chariad Crist
   sy'n croesawu pawb sydd mewn angen.

5. Bendithied Duw Dad eich cartref.
Llanwed Crist eich calonnau â gorlif o gariad.
Lapied yr Ysbryd chwi yn ei gariad a'ch gwau yn un.

6. Cadwch eich cariad yn bur i'ch gilydd,
ond na chaeed allan byth yr anghenus.

Bydded gostus eich cariad at eich gilydd;
ond na fethed byth â llosgi yn amgylchiadau cyffredin bywyd.

Tyfed ac aeddfeded eich cariad at eich gilydd;
ond nad anghofied byth sylfeini eich bywyd ynghyd.

Ymbiliau

1.
Dduw grasol, gweddïwn dros *E* ac *E* a diolchwn am iti eu dwyn ynghyd mewn priodas.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Cynorthwya hwy (i fod yn rhieni doeth a chariadus) i gyd-dyfu mewn ffyddlondeb a gonestrwydd ac i gynnal ei gilydd mewn amynedd.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Gwna eu bywyd ynghyd yn arwydd o'th gariad yn y byd drylliedig hwn; bydded i faddeugarwch iacháu niwed ac i lawenydd orchfygu galar.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Bydd gyda hwy yn eu gwaith ac adnewydda hwy yn eu hamdden.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Bydded iddynt groesawu i'w cartref gyfeillion a dieithriaid ac adlewyrchu felly gariad dy Fab at bawb.
Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Yn eu holl ddyfodol ynghyd bydded iddynt fwynhau bywydau ei gilydd ac aeddfedu yn y cariad a rannant.
Gofynnwn y pethau hyn trwy Grist ein Harglwydd.
Amen

2.
Dduw ffyddlon,
sanctaidd a thragwyddol,
ffynhonnell bywyd a ffynnon cariad,
rhoddwn iti ddiolch a moliant am arwain *E* ac *E* i'r diwrnod hwn,
a gweddïwn drostynt.
Arglwydd bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Rhodded eu priodas fywyd a pharhau tra byddant byw,
cyfoethoger hi â'th bresenoldeb a'i chryfhau â'th ras;
bydded iddynt gysuro ei gilydd a nerthu ei gilydd
mewn ffyddlondeb ac ymddiriedaeth.
Arglwydd bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Deued lletygarwch eu cartref
â lluniaeth a llawenydd i bawb o'u cwmpas;
gorlifed eu cariad at gymdogion anghenus
a chofleidio'r trallodus.
Arglwydd bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Bydded iddynt ddirnad yn dy air
drefn ac amcan i'w bywyd;
a bydded i nerth dy Ysbryd Glân
eu tywys mewn gwirionedd a'u hamddiffyn mewn adfyd.
Arglwydd bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Bydded iddynt feithrin eu teulu'n ffyddlon,
gweld eu plant yn tyfu, gorff, meddwl ac ysbryd,
a dyfod yn y diwedd at derfyn eu hoes
yn fodlon eu calon
ac yn gobeithio'n llawen am y nefoedd.
Arglwydd bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

3.
Yn llawn llawenydd dros *E* ac *E ,* gweddïwn dros eu bywyd ynghyd.

Bydded eu cariad at ei gilydd yn fwyd a diod iddynt.
Eu parch at ei gilydd yn ffynhonnell eu llawenydd.

Arglwydd yr aelwyd a'r cartref, *neu:* Arglwydd, yn dy drugaredd,
Gwrando ein gweddi y dydd hwn. **Gwrando ein gweddi.**

Bydded eu dealltwriaeth o'i gilydd yn sylfaen maddeuant.
Eu serch at ei gilydd yn fflam i oleuo pob tywyllwch.

Arglwydd yr aelwyd a'r cartref,
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.

Bydded eu hymrwymiad i'w gilydd yn sicrwydd iddynt.
Eu ffydd yng Nghrist yn ganolbwynt eu tŷ a'u cartref.
Arglwydd yr aelwyd a'r cartref,
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.

Bydded eu didwylledd yn ffynhonnell tangnefedd.
Deued eu gonestrwydd â chytgord i bob anhawster a wynebant.

Arglwydd yr aelwyd a'r cartref,
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.

Bydded i'r Arglwydd bob amser le yn eu cartref
a llais ym mhob peth a wnânt.

Arglwydd yr aelwyd a'r cartref
Gwrando ein gweddi y dydd hwn.

Os yw'r Gwasanaeth yn rhan o Litwrgi'r Cymun Bendigaid, terfyna'r Ymbiliau â gweddi addas ac â'r litwrgi ymlaen â'r Tangnefedd.

Dwg Crist ni'n nes at y Tad mewn cymundeb agos o gariad, ac felly, yn ei eiriau ef, dyrchafwn ein lleisiau mewn gweddi: **Ein Tad …**

.

4.

Gweddïwn dros *E* ac *E*. fod iddynt gydol eu bywyd priodasol ynghyd
gadw bob amser yr addewidion a wnaethant.

Rhodded muriau eu cartref iddynt ddiogelwch a sefydlogrwydd,
ond heb fyth gau allan ofalon y byd.

Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.

Llewyrched goleuadau eu cartref â chariad
a fydd yn gwahodd pawb a â heibio ac yn oleuni i'w bywydau.

Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi

Bydded drysau eu cartref yn agored i bawb a ddaw yn enw'r Arglwydd,
bydded yno groeso cynnes a hael a chariad di-baid.

Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.

Mager eu plant mewn cariad,
fel y bo eu bywyd teuluol yn ysbrydoliaeth i'r gymuned gyfan
ac yn esiampl o ystyr dilyn yr Arglwydd.

Arglwydd Dduw, rhoddwr pob peth daionus,
Gwrando ein gweddi.
Os yw'r Gwasanaeth yn rhan o Litwrgi'r Cymun Bendigaid, terfyna'r Ymbiliau â gweddi addas ac â'r litwrgi ymlaen â'r Tangnefedd.

Bydded eu bywyd ynghyd yn arwydd o gariad yr Arglwydd
a dywalltodd ei Ysbryd i'n calonnau yn llefain 'Abba, Dad,'
fel y gallwn ddyrchafu ein lleisiau ag un galon a meddwl,
a dweud gyda'n gilydd: **Ein Tad …**

Bendithion terfynol

1. Gogoniant a moliant i ti, Arglwydd Dduw,
dangosaist inni sut i garu pan roddaist dy Fab
a thywallt i'n calonnau dy Ysbryd sy'n ein dwyn yn nes atat.
Llanw ni â chariad at bob peth a wnaethost,
ac, yn ein llawenhau a'n dathlu,
bydded inni ddarganfod prydferthwch dy gariad a llewyrch dy oleuni.
Gofynnwn hyn trwy Iesu yr Arglwydd. Amen.

2. Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Yn ei gariad mawr,
fe'ch bendithiodd Duw trwy roi ei Fab,
y mae ei freichiau agored yn ymestyn at bawb
sy'n agor eu calonnau iddo.
Llifed y cariad y gorchmynnodd Crist ni i'w arddel
i fywydau pawb y cyfarfyddoch â hwy.

A bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**